



Dydd Llun 04ain Mawrth 2024, 18:00-20:00

UNDEB MYFYRWYR ABERYSTWYTH

Y Cyfarfod Mawr 2024





Agenda:

- Sylwadau Croeso ac Agoriadol
- Derbyn adroddiad yr ymddiriedolwyr - (ceir adroddiad llawn yn y cyfrifon blynyddol drafft yma)
- Derbyn y cyfrifon blynyddol (cyfrifon blynyddol drafft yma)
- Penodi'r Archwilwyr:
- Cymeradwyo'r rhestr o gysylltiadau (cysylltiadau ar gyfer Gorffennaf 2024-2025):
 - UCM y DU = £17,400, UCM Charity =£4350
 - Chwaraeon Prifysgolion a Cholegau Prydain (BUCS) = £6400 (est) Cysylltiad
 - BUCS gan gynnwys costau teithio BUCS £63,000)
 - Advice UK Aelodaeth = £280.00
 - Cyflog Byw Go Iawn: £150
- Cysylltiadau neu gynlluniau sy'n cynnig aelodaeth am ddim:
 - Welsh Council for Voluntary Action (WCVA)= nid ydym yn talu ar hyn o bryd
 - HALO
 - Mindful employer
 - Tourettes Friendly Employer and Organisation (Tourette's Action)Adroddiad y Swyddogion
 - Eich Syniadau
 - A ddylai Undeb Myfyrwyr Aberystwyth Students' Union newid ei new a chael ei chydabod fel Undeb Aberystwyth?
 - Dylid cael cyflwyno pleidlais o ddiffyg hyder I aelodau pwyllgor grwpiau myfyrwyr.
 - Deiseb Gwasanaethau Golchdy am ddim I Breswylwyr llawn Amswer.
- Unrhyw Faterion Eraill
- Dyddiad Cyfarfod y Senedd Nesaf (29ain Ebrill 2024 – 18:00-20:00 Picturehouse yr UM)



A ddylai Undeb Myfyrwyr Aberystwyth Students' Union newid ei enw a chael ei chydnabod fel Undeb Aberystwyth?

Dangoswch ein bod yn Caru'r Gymraeg drwy ddefnyddio'r enw Cymraeg ar yr Undeb yma'n Aberystwyth.

A ddylai Undeb Myfyrwyr Aberystwyth Students' Union newid ei enw a chael ei gydnabod fel Undeb Aberystwyth? Dyma fy nghwestiwn i i chi. Yn fy nhyb i mae tuedd i ddefnyddio'r enw Saesneg, Aberystwyth Students' Union yn amlach na'r Gymraeg a nid yw hyn yn adlewyrchu endid Cymraeg yr Undeb.

Ers bod yn fy swydd fel Swyddog Diwylliant Cymreig a Llywydd UMCA, rwyf wedi cael sawl un yn honni mai Bangor yw'r 'Brifysgol Gymraeg' yng Nghymru, ac er fy mod i'n amlwg yn anghytuno'n llwyr gyda hyn mae un peth yn sefyll allan imi, sef eu henw uniaith Gymraeg ar yr Undeb. Roedd y penderfyniad yma'n un mewdol ym Mangor, ond credaf ei bod hi'n bwysig cymryd i ystyriaeth llais y myfyrwyr mewn penderfyniad fel hyn, gan ystyried hefyd y bydd ychydig o gost yn sgil y newid.

Yn ychwanegol, un o'n gwerthoedd ni yma yn yr Undeb yw CARU'R GYMRAEG a pha ffordd well o gyfleu hynny na drwy newid enw'r Undeb i Undeb Aberystwyth, sy'n dipyn llai o lond ceg nag Undeb Myfyrwyr Aberystwyth Students' Union!

Mae tuedd hefyd i rai gyfeirio at yr Undeb Myfyrwyr fel yr Undeb Saesneg ac yna UMCA fel yr Undeb Gymraeg, a fy ngobaith i drwy newid yr enw yw amlygu ymrwymiad yr Undeb tuag at y Gymraeg. Bydd y newid hwn hefyd yn dangos i'r Brifysgol bod statws y Gymraeg yn bwysig i'r myfyrwyr.

Mae sawl enghraifft o ble mae defnyddio'r enw Cymraeg wedi gwneud gwahaniaeth er enghraifft, FAW Cymru, Bannau Brycheiniog a'r Wyddfa.

Dyma gyfle i sicrhau bod pobol yn defnyddio'r Gymraeg nid yn unig yma yn Aberystwyth ond hefyd yn rhyngwladol.

Dangoswch ein bod yn Caru'r Gymraeg drwy ddefnyddio'r enw Cymraeg ar yr Undeb yma'n Aberystwyth.

Cyflwynwyd gan: Elain Gwynedd



Dylid cael cyflwyno pleidlais o ddiffyg hyder i aelodau pwyllgor grwpiau myfyrwyr.

Ar hyn o bryd, mae gennym bolisi pleidlais o ddiffyg hyder ar gyfer cynrychiolwyr academiaidd ac aelodau pwyllgor grwpiau myfyrwyr nad yw'n gweithio i grwpiau llai eu maint, oherwydd dim ond 10% o bwyllgor sydd ei angen i'w wneud. Ar gyfer pwyllgor tri pherson, mae hyn yn llai na pherson. Ar ôl gwneud ymchwil i bleidleisiau diffyg hyder grŵp myfyrwyr mewn undebau myfyrwyr eraill ledled y DU, dyma bolisi wedi'i ddiweddarau: Os nad yw aelod etholedig o bwyllgor yn cyrraedd y safonau sy'n ofynnol gan y pwyllgor, dylid cymryd y camau canlynol: Dylai aelodau pwyllgor arall gael cyfarfod anffurfiol gyda'r unigolyn i ofyn a ydynt yn cael trafferth gyda'r rôl a beth ellir ei wneud i helpu. Dylai ymdrechion i ddatrys y sefyllfa o fewn y grŵp ddigwydd cyn unrhyw ymgais i gyflwyno pleidlais o ddiffyg hyder. Os nad yw'r mater wedi'i ddatrys ar ôl i'r unigolyn gael cyfleoedd i'w unioni, yna dylai'r pwyllgor gysylltu â'r Swyddog Cyfleoedd (suopportunities@aber.ac.uk) a/neu eu cydlynnydd perthnasol (suclubs@aber.ac.uk) i drefnu cyfarfod cyfryngu. Bydd y swyddog a'r staff yn chwarae rhan niwtral, a byddant yn hwyluso'r cyfarfod gyda'r nod o ddatrys yr anghydfod. Os na cheir cyfaddawd, yna gellir cychwyn Pleidlais o Ddiffyg Hyder i ddiswyddo aelod o'r pwyllgor. Gall Pleidlais o Ddiffyg Hyder fod yn ofidus i bawb dan sylw a dyma'r cam olaf. Dim ond os na chyrhaeddwyd cyfaddawd y dylai ddigwydd ar ôl ymdrechion cyfryngu. Proses Pleidlais o Ddiffyg Hyder:

Cyflwynwyd gan: Tiff McWilliams



Deiseb Gwasanaethau Golchdy am ddim i Breswylwyr Llawm Amser

Mae'r apêl yn gofyn i Gyngor Prifysgol Aberystwyth wneud y gwasanaethau golchi dillad ar y campws am ddim i breswylwyr, gan bwysleisio'r effaith y mae'n ei gael ar les myfyrwyr, pwysau ariannol, ac ymrwymiad y Brifysgol i gynwysoldeb a bodlondeb myfyrwyr.

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi hen ennill enw da am fod yn sefydliad sy'n blaenoriaethu myfyrwyr, gan gyrraedd yr uchaf o ran bodlondeb myfyrwyr. Fodd bynnag, rydyn ni'r myfyrwyr isod, wedi sylwi ar rwystrau wrth fynd i'r afael â phryderon myfyrwyr, yn bennaf ynglŷn ag amgylchiadau byw. Rydyn ni'n falch o fod yn aelodau y sefydliad hwn ac hoffem ni bwysleisio ymrwymiad y Brifysgol i les a bodlondeb myfyrwyr, ond credwch chi neu beidio, mae'r gwasanaethau golchdy yn rhwystr rhag symud ymlaen. Er mwyn cadw amgylchedd byw cefnogol, rydyn ni'n gofyn i'r gwasanaethau golchi dillad fod am ddim. Fel preswylwyr ar y campws, dylai'r hawl i olchi dillad am ddim fod yn rhan o'n ffioedd llety. Mae'r ffioedd presennol yn llawer uwch na'r hyn a geir mewn trefi neu brifysgolion eraill. Yn hynny o beth, mae llawer o brifysgolion eisoes yn cynnig gwasanaethau golchi dillad am ddim. Mae hyn yn lleddfu'r baich sydd ar fyfyrwyr o deuluoedd incwm isel, neu'r rheini sy'n dibynnu ar ysgoloriaethau ac ar gymorth ariannol i astudio. Daw uniondeb ariannol o dan gategori o gynwysoldeb y mae Prifysgol Aberystwyth yn ei hyrwyddo yn gyson, a ystyrid newid y gwasanaethau golchi dillad yn ffordd o fodloni anghenion myfyrwyr. Er mwyn ystyried pwysigrwydd golchi dillad, gadewch i ni feddwl am yr effaith y mae'n ei gael ar les myfyrwyr o ddydd i ddydd. Yn aml iawn mae myfyrwyr yn eu cael eu hunain yn peidio â bwyta a/neu yn canslo cynlluniau i gymdeithasu er mwyn trefnu golchi dillad o achos ei gostau, neu yn gweld pa mor hir y gallant barhau mewn dillad budr; byddai'r baich hyn yn codi yn sylweddol pe bai myfyrwyr yn gallu teimlo nad oes brys i'w wneud gan ei fod am ddim. Mae dillad glân yn rhan ynghlwm ag urddas a hunan-werth myfyriwr/wraig, Ni ddylai gael rheoli pryd y byddant yn cael bwyta, cymdeithasu, a mwynhau diddordebau ar sail dillad glân a'r arian i dalu am ddefnyddio'r golchdy. Dylid ystyried gwneud golchi dillad yn wasanaeth am ddim yn buddsoddi yn lles meddwl, emosiynol a chymdeithasol y boblogaeth fyfyrwyr. Rydym gofyn yn barchus i Brifysgol Aberystwyth arwain gan esiampl wrth roi myfyrwyr ar flaen ei blaenoriaethau. Diolch am eich amser ac am eich ystyriaeth.

Diwygiad

Os bydd Cyngor Prifysgol Aberystwyth yn methu â chytuno i weithredu Gwasanaethau Golchdy am Ddim i Breswylwyr Llawm Amser, dylai Undeb y Myfyrwyr lobio bod Circuit Laundry, fel prif ddarparwr gwasanaethau golchdy, yn cael ei newid i wasanaeth mwy moesegol a chost isel (ond ansawdd da) fel opsiwn i fyfyrwyr. Mae'r Brifysgol dan straen ariannol sylweddol a bydd yn rhaid iddi ddod o hyd i arbedion mewn sawl maes o fywyd y Brifysgol. Gallai fod canlyniadau anfwriadol o weithredu gwasanaethau golchdy am ddim ar y campws, a gallai hyn gynnwys codi costau llety gan roi hyd yn oed mwy o galedi ariannol ar fyfyrwyr. Felly, cynigiau fel cyfaddawd y dylid rhoi'r gorau i Circuit Laundrette Services LTD fel ddarparwr gwasanaethau golchdy ym Mhrifysgol Aberystwyth. Ac yn lle hynny, dylid



cyflwyno gwasanaeth golchdy mwy moesegol a rhad (ond o ansawdd da). Mae unrhyw un sydd wedi byw mewn llety myfyrwyr ar y campws wedi profi ansawdd gwael y gwasanaeth y mae Circuit Laundry yn ei `ddarparu'. Mae'r rhain yn amrywio o dillad ddim yn cael eu golchi'n iawn, dillad ddim yn cael eu sychu'n iawn neu gymhlethdod a methiant y cerdyn neu'r ap golchi dillad! Yn ogystal, fel y mae'r syniad yn ei grybwyll, mae cost golchi a sychu yn eithafol. Mae'r gwasanaeth cwsmeriaid yn ofnadwy. A pheidiwch â cheisio cael eich arian yn ôl gan fod ad-daliadau ar gredyd heb ei ddefnyddio yn costio £3 o ffi weinyddol, ac ni allwch gael unrhyw beth yn ôl os yw dan £5.

Nid yw'r materion hyn yn unigryw i Aberystwyth ac mae llawer o Brifysgolion ledled y DU yn troi'r llanw ar Circuit ac yn newid i system well. Gadewch i ni wneud yn siŵr ein bod yn cael gwasanaeth o'r ansawdd gorau yr ydym yn ei haeddu yma yn Aberystwyth a bod y gwasanaeth hwn naill ai am ddim neu mor rhad â phosibl.

Cyflwynwyd gan: Nadia Benjelloun